| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Chwefror 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Prif Swyddog Cyllid |
| **Teitl:** | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2016/17 a Dangosyddion Darbodus 2016/17 i 2018/19 (Atodiad 1) |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r DSRhT (Atodiad 1) yn dangos sut bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn gosod polisïau ar gyfer gweithredu swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys (RhT). Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar y Dangosyddion Darbodus.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys (y "Cod RhT SSCCCh") yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r DSRhT a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Felly, mae angen gwneud penderfyniad i gymeradwyo'r argymhellion isod.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r DSRhT ar gyfer 2016/17 (Atodiad 1).

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo gosod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19 (Atodiad 1 Ychwanegiad A).

3.3 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (Atodiad 1 Adran 6).

## 4 Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

4.1 Mae RhT yn golygu edrych ar ôl arian y Cyngor sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor oherwydd bod oddeutu £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.

4.2 Ar unrhyw adeg, mae gan y Cyngor o leiaf £10m mewn arian parod, felly mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r gyfradd enillion gorau posibl heb roi'r arian mewn perygl a dyna pam ein bod yn buddsoddi arian gyda nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael yr arian yn ôl pan fyddwn ei angen (hylifedd);
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael cyfradd elw da (arenillion).

**DSRhT 2016/17**

4.3 Mae DSRhT ar gyfer 2016/17 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgarwch RhT y Cyngor ac yn dangos bod benthyca'r Cyngor yn fforddiadwy.

**Dangosyddion Darbodus:**

4.4 Mae dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf.

4.5 Mae'r dangosyddion Cyfrif Refeniw Tai wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y Cynllun Busnes Stoc Tai diweddaraf.

4.6 Mae'r Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellwyd i'w cymeradwyo wedi'u nodi yn Atodiad 1 Ychwanegiad A.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae strategaeth RhT effeithlon yn galluogi'r Cyngor i leihau ei gostau benthyca a rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn codi o ganlyniad i bennu Dangosyddion Darbodus. Pwrpas y Strategaeth RhT yw cael yr enillion gorau o fewn fframwaith risg a reolir yn briodol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Nid oes angen hyn fel rhan o'r adroddiad hwn.

## 8 Pa ymgynghori a wnaed?

8.1 Paratowyd Cynllun Cyfalaf a Chyllideb Refeniw'r Cyngor mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pwyllgorau Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor.

8.2 Bydd y Cynllun Busnes Stoc Tai, cyllidebau refeniw a chyfalaf yn cael eu cyflwyno i aelodau. Ymgynghorir gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych ar y cynigion.

8.3 Cafodd Datganiad y Strategaeth ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Ionawr 2016.

8.4 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'i ymgynghorwyr RhT, Arlingclose Ltd

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae RhT yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mabwysiadodd y Cyngor y Cod Ymarfer diwygiedig SSCCCh ar RhT (Tach 11) yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2012. Mae'n ofyniad y Cod hwnnw i'r Cyngor gymeradwyo DSRhT pob blwyddyn ariannol.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae RhT yn ei hanfod yn beryglus fel yr amlinellwyd yn y Datganiad Strategaeth. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg ond mae'n amhosibl dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol bennu Dangosyddion Darbodus ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (SSCCCh).